



Syniadau i'r Cyfarfod Mawr (CCB)
Dydd Llun 2 Rhagfyr, 6pm
Prif Ystafell Undeb y Myfyrwyr

1. Caniatáu Anifeiliaid Anwes Bach mewn Llety Prifysgol

Ystyriwch ganiatáu anifeiliaid anwes bach mewn cewyll mewn llety myfyrwyr

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Llesiant
Cyflawnwyd Gan: Frankie Saunders

Manylion:

Mae hwn yn fater yr wyf i fy hun wedi delio ag ef ac wedi gweld cymaint o bobl eraill yn mynd drwyddo. Mae problem fawr o ran iechyd meddwl ym Mhrifysgol Aber ar hyn o bryd ac rydw i wir yn credu y gall caniatáu anifeiliaid anwes bach mewn cewyll yn llety'r brifysgol arbed bywydau rhai pobl. Rwy'n gwybod mai dyma oedd yr achos i mi yn fy mlwyddyn gyntaf fel myfyriwr. Roeddwn i'n byw yn un o'r ystafelloedd gwely hynny sydd fel cell mewn carchar, ond er mwyn cael cwmni fy anifeiliaid anwes roedd yn rhaid i mi dorri'r rheolau; cefais fy nghosbi gan y brifysgol pan ddaethant i wybod am hyn yn y pen draw. Er bod fy anifeiliaid yn lân, yn fy ystafell wely fy hun a ddim yn peri trafferth i neb. Mae'n hurt bod y rheolau mor gaeth ar rywbeth sydd mewn gwirionedd mor bwysig i lawer o bobl! Rhaid bod dull neu system y gellir ei chyflwyno er mwyn caniatáu anifeiliaid anwes bach mewn cewyll mewn llety myfyrwyr. I lawer o bobl, yn enwedig y rhai â phroblemau iechyd meddwl, mae bod ag anifail anwes bach i ofalu amdano yn gwneud gwahaniaeth enfawr i lesiant cyffredinol. Ystyriwch y syniad hwn, rwy'n credu y byddech chi'n gweld y byddai'n gwella llesiant myfyrwyr yn fawr. Gallai'r brifysgol hyd yn oed elwa o'r trefniant, gan y gellid codi 'blaen-dâl anifeiliaid anwes' yn ychwanegol; rwy'n gwybod y byddwn i a llawer o rai eraill yn barod iawn i dalu'n ychwanegol i gadw ein hanifeiliaid anwes! Yn ddiweddar collais ffrind a myfyriwr Aber a gyflawnodd hunanladdiad; rwyf yn gwybod bod hwn yn fater sylweddol a faint o bobl y mae'n effeithio arno, a byddai hyn yn wirioneddol yn helpu i frwydro yn ei erbyn. Felly ystyriwch hyn os gwelwch yn dda. Diolch